
Rhifyn 2, Mehefin 2020

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Ymdopi ag argyfwng



Ysgolion, colegau a phrifysgolion ar gau. Arholiadau wedi canslo. Pawb adre. Dysgu o bell yn norm.

Pwy fyddai wedi gallu dychmygu'r fath sefyllfa? A phwy oedd erioed wedi clywed am Zoom?!

Ers rhifyn diwethaf Yr Athro, mae ein byd a'n bywydau wedi'u chwildroi.

Mae'r gweithlu addysg wedi bod yn ei chanol hi: yn ymwneud â hybiau i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus, yn darparu dysgu o bell, yn cefnogi dysgwyr, yn llunio rhestrau o raddau canolfan i ymgeiswyr arholiadau allanol, a nawr yn dechrau gweithio ar gynlluniau ar gyfer ail-agor y drysau.

Ac mae UCAC wedi bod yn ei chanol hi hefyd – mewn trafodaethau cyson gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol, ColegauCymru, Cymwysterau Cymru, CBAC, Estyn, asiantaethau ac yn y blaen.

Rydym oll yn rhan o'r ymdrech i sicrhau diogelwch ein sefydliadau a'r sawl sy'n eu mynychu, ac yn sgil hynny diogelwch ein cymunedau yn ehangach. Ac ar yr un pryd yn ceisio ymaddasu i'n tirwedd newydd.

Mae gwerth addysg wedi'i amlygu, yn ogystal â'r gwerthfawrogiad o waith pawb sy'n addysgu. Mae lles wedi dod yn ganolog i bob ystyriaeth a phob cynllun.

Daw'r dychweliad bob yn dipyn. Gallwn fod yn sicr na fyddwn yn dychwelyd i'r un 'normal' ag o'r blaen, ond fersiwn newydd ohono.

Gobeithiwn y gallwn ddal gafael ar y gwerthfawrogiad o athrawon ac addysg – yn eu hystyr ehangaf – ac ar sicrhau fod lles pob unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn.

t2 Lles emosiynol    t4-5 Covid-19 ar lawr gwlad    t7 Cynnig arbennig

# Lles meddyliol, emosiynol

Yn ddi-os mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai eithriadol o heriol i'r byd addysg gyda'r angen i gadw'n iach a diogel.

Roedd UCAC wedi croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi gosod 'diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol myfyrwyr a staff' yn ganolog i'r drafodaeth ynghylch y camau nesaf.

Mae UCAC wedi bod yma i chi trwy gydol y cyfnod anodd a byddwn yn parhau i fod ar gael i gynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth.

Rydym hefyd yn awyddus i ddwyn eich sylw at waith **Education Support** sydd â llinell gymorth i unrhyw un sy'n gweithio ym myd addysg.

Rydym wedi cyfeirio mewn rhifyn blaenorol o'r Athro at wefan **meddwl.org**. Erbyn hyn, mae'n cynnwys ardal benodol ar fywyd mewn cymdeithas sy'n pryderu am effeithiau coronafeirws.

Wrth weithio gyda rhwydwaith undebau llafur TUC Cymru rydym yn agor y drws ar fanc o wybodaeth a chyngor sy'n allweddol yn y cyfnod bregus hwn.

Carwn bwysleisio bod UCAC yn parhau gyda'n gwasanaeth cynhwysfawr ac rydym yn eich annog i gysylltu i drafod unrhyw fater yn ymwneud â'ch cyflogaeth gyda ni.

https://meddwl.org
https://www.educationsupport.org.uk
https://www.tuc.org.uk/cy/covid-19-cyngor-ar-y-coronavirus-i-weithwyr-yng-nghymru

# Tegwch i athrawon cyflenwi

Mae UCAC wedi bod yn brwydro i sicrhau buddiannau athrawon cyflenwi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae aelodau a swyddogion wedi bod yn dwyn pwysau ar yr asiantaethau, swyddogion awdurdodau, cynghorwyr, gweision sifil a gwleidyddion, a hynny drwy e-byst, llythyru, trafod â'r wasg a chael eu cyfweld ar y cyfryngau er mwyn sicrhau fod pob athro'n cael triniaeth deg tra bo'r ysgolion ar gau i addysgu ffurfiol.

Prin yw'r galw sydd wedi bod am wasanaeth athrawon cyflenwi ers 20 Mawrth 2020 ac felly mae nifer wedi wynebu cyfnod heb unrhyw incwm.

Oherwydd bod athrawon cyflenwi'n cael eu cyflogi mewn gwahanol ffyrdd, mae sawl cwestiwn wedi codi am statws eu cyflogaeth. Ymysg y sefyllfaoedd sy'n codi mae:

- sicrhau taliadau i athrawon cyflenwi â chytundebau hirdymor
- sicrhau taliadau 'furlough' i'r rheiny sy'n gweithio drwy asiantaeth, gan gynnwys cyfrifo'r taliadau'n gywir ac nid ar sail y lleiafswm cyflog cenedlaethol
- sicrhau unrhyw gyflog i'r rheiny sy'n derbyn gwaith o ddydd i ddydd

Mae sawl llwyddiant wedi deillio o'r ymgyrchu, gydag asiantaethau'n cydnabod yr angen i dalu 'furlough' yn llawn a sawl awdurdod yn cydnabod bod dyletswydd ganddynt i gynnig cyflogaeth/cefnogaeth i bob athro cyflenwi.

O ran yr athrawon cyflenwi hynny sy'n cael eu cyflogi o ddydd i ddydd, y calondid yw bod dau o'r tri awdurdod sy'n cyflogi athrawon cyflenwi drwy ddulliau uniongyrchol yn unig bellach wedi datgan bod cefnogaeth yn ei lle.

Wrth i'r Athro fynd i'r wasg, y gobaith yw y bydd Ynys Môn yn ymuno â Cheredigion a Gwynedd ac yn ail-ystyried eu polisi er mwyn trin pob aelod o staff yn y sector yn deg yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.





## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Julia James
**Is-Lywydd:** Eirlys Edwards
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Dilwyn Roberts-Young
**Cydlynydd Yr Athro:** Rebecca Williams

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

# Ail-agor ysgolion

Ymatebodd UCAC yn chwyrn i ddatganiad y Gweinidog Addysg ar 3 Mehefin bod ysgolion yn mynd i ail-agor yn raddol i bob disgybl o 29 Mehefin dros gyfnod o bedair wythnos.

Dywedodd Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC "Mae'r undebau addysg wedi bod mewn trafodaethau cyson gyda Llywodraeth Cymru ers dechrau'r argyfwng, gan gynnwys ynghylch ail-agor ysgolion. Gyda'n gilydd, mae'r proffesiwn wedi llwyddo i ddarparu'n arwrol ar gyfer disgyblion Cymru yn ystod y cyfnod helbulus hwn.

"Fodd bynnag, rydym yn gresynu'n fawr at y ffaith fod y Llywodraeth wedi anwybyddu barn yr undebau mai blynyddoedd 6, 10 a 12 ddylai fod wedi cael blaenoriaeth petai unrhyw ail-agor cyn yr haf.

"Mae'r ystyriaethau ymarferol sydd ynghlwm â cheisio sicrhau bod hyd yn oed nifer bychan o ddisgyblion yn dychwelyd cyn yr haf yn eithriadol o gymhleth – heb sôn am geisio sicrhau bod *pob* disgybl yn cael y cyfle i ddychwelyd. Mae creu amgylchedd mor ddiogel â phosib i bawb tra'n cynnal awyrgylch groesawgar a chefnogol yn her anferthol.

"Rydym yn gwbl ymwybodol o'r manteision posib i ddisgyblion o ddychwelyd am rywfaint cyn yr haf, ond rhaid cydbwyso'r manteision posib hynny gyda'r risgiau – i'r disgyblion eu hunain, i staff ac i gymunedau ehangach yr ysgolion.

"Yn syml iawn, po fwyaf o blant, mwya'r risg.

"Ac o geisio rhoi sylw i bawb, mi fydd yn anoddach byth sicrhau'r sylw haeddiannol i'r disgyblion hynny sy'n flaenoriaeth yn y tymor byr, sef blynyddoedd 6, 10 a 12."

Ers y cyhoeddiad, mae UCAC wedi ysgrifennu llythyr at y Gweinidog yn mynegi'n anfodlonrwydd ac yn aros am ymateb.

Yn ogystal, rydym wedi anfon rhestr o gwestiynau manwl at ei swyddogion - materion y mae angen eglurder yn eu cylch ar fyrder er mwyn helpu arweinwyr ysgol i gynllunio dychweliad trefnus ac mor ddiogel â phosib i bawb o gymuned yr ysgol.

Ac rydym wedi cylchredeg Rhestr Wirio i aelodau i'w cynorthwyo i sicrhau dychweliad sy'n caniatáu i staff deimlo'n hyderus.

Cofiwch os oes gennych chi unrhyw bryder neu broblem, cysylltwch â ni i drafod: ucac@ucac.cymru 01970 639950



*Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg*

# COVID-19
## ar lawr gwlad



*Chris Shaw, Ysgrifennydd Sir Abertawe*

Mae'n anodd credu bod bron i ddeg wythnos wedi gwibio heibio ers i'r coronafeirws trawsnewid ein bywydau ar ddiwedd mis Mawrth.

Mae'r cyfnod yma i bawb sy'n ymwneud ag addysg wedi bod yn hynod o heriol, wrth i ni geisio dod i'r arfer o ddysgu o bell, datblygu ein sgiliau digidol, ac wrth gwrs, cadw mewn cysylltiad gydag ein disgyblion a chydweithwyr, heb sôn wrth gwrs am fynychu'r ysgolion/hybiau i sicrhau gofal plant i weithwyr allweddol. Yn wir, hoffwn fachu ar y cyfle i ddiolch i holl weithwyr y GIG a'r gofalwyr am eu gwaith arwrol, ond fel Ysgrifennydd Sir Abertawe, hoffwn hefyd ddiolch i athrawon a holl staff ysgolion ein sir am eu parodrwydd i ymroi'n llwyr i'r sefyllfa argyfyngus.

Mae dysgu o bell yn codi sawl problem, yn amlwg boddhad mwyaf ein gwaith dyddiol fel athrawon yw'r cyfle i weithio gyda'r disgyblion, ac mae'r holl amser yma heb eu gweld mor anodd i'r athrawon ac yw e i blant ein hysgolion. Hefyd, mae'r her o sicrhau ein bod yn barod i fynd i'r afael â'r heriau digidol; dwi bellach yn arbenigwr ar lwyfannau digidol amrywiol, ac yn ateb llu o e-byst yn wythnosol. Rhaid nodi bod athrawon ac arweinwyr ein hysgolion yn teimlo bod ein horiau gwaith wedi eu hymestyn yn ystod y cyfnod yma a rhaid sicrhau bod iechyd a lles ein hathrawon yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i ni symud ymlaen.

Hefyd, fel proffesiwn, mae gweld beirniadaeth o athrawon yn y wasg a thrwy gyfryngau cymdeithasol yn anodd. Dwi, fel sawl athro arall, yn blino o glywed bod ysgolion ar gau! Fel ysgolion unigol a hybiau, mae ein sefydliadau yn bendant ar agor ac yn darparu gwasanaeth arbennig ac amhrisiadwy wrth ofalu am blant ein gweithwyr allweddol. Yn sicr, rhaid diolch i'r undeb a'i swyddogion am eu cefnogaeth a'u parodrwydd parhaus i helpu.

Ar lefel sirol, braf yw nodi'r cydweithio cynhyrchiol ar lefel cyd-undebol a rhaid canmol y ddeialog agored ac adeiladol sydd wedi bod ar waith ers diwedd mis Mawrth. Hoffwn ddiolch yn bersonol i'r Swyddog Maes, Gareth Morgan, am ei gefnogaeth a'i gyngor. Braf hefyd yw nodi pwysigrwydd gwaith yr undeb wrth gyfathrebu'n gyson gydag aelodau, a chroesawaf yr ymateb pwyllog a gofalus gan ein Senedd yng Nghaerdydd. Mae un peth yn sicr, wrth edrych ymlaen at y dyfodol, a gobeithio y gallwn ddychwelyd i'r gweithle pan yn ddiogel (a phwysleisiaf yn ddiogel), ni fyddwn yn anghofio'r cyfnod cythryblus yma.

# COVID-19
## ar lawr gwlad




*Eirlys Edwards, Ysgrifennydd Sir Conwy ac Is-lywydd UCAC*

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Cerrigydrudion wedi bod yn ysgol glos a chroesawgar, llawn bwrlwm o weithgareddau ar hyd y blynyddoedd. Yr un fyddai'n wir yr wythnos hon - byddai mwyafrif y disgyblion, rhieni, staff a chyfeillion o'r gymuned wedi mynychu'r Hwyl Haf yn y Ganolfan ac yn cymdeithasu a chwerthin a mwynhau. Wythnos yma byddai disgyblion dirifedi o Adran yr Urdd Uwchaled wedi teithio i Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych i ganol y cystadlu brwd.

Ond … ers y datganiad hanesyddol hwnnw bod pob ysgol yng Nghymru ar gau mae'r bwrlwm wedi tewi a'r chwerthin a'r mwynhau wedi diflannu o'r ysgol a fy rôl i fel Pennaeth wedi newid cymaint dros y 10 wythnos diwethaf. Rwyf wedi dysgu cymaint o bethau newydd dros y cyfnod heriol hwn ac wedi, coeliwch neu beidio, dod yn rhan o gymuned newydd – Cymuned yr Hwb a heb y gymuned honno byddai bywyd wedi bod dipyn anoddach credwch chi fi.

Yn ystod y pythefnos gyntaf o'r cloi roeddem fel ysgol yn cynnig gofal plant ar safle'r ysgol i blant gweithwyr allweddol ond wrth i effaith y COVID ddisgyn ar y gymuned daeth yn amlwg iawn bod cynnal gofal i ddisgyblion gyda staff cyfyngedig yn amhosib a dyna pryd y daeth Hwb Bro Aled i fodolaeth - hwb gofal plant i ddisgyblion o ysgolion gwledig yr ardal.

Wrth greu rota o benaethiaid, athrawon a chymorthyddion daeth yn amlwg i mi pa mor unigryw ac anhygoel o gadarn ydi staff ysgolion. Ymatebodd pawb yn gadarnhaol i'r cais o weithio oriau estynedig yn yr hwb, o deithio o'u man gwaith arferol, gofalu a chefnogi plant oedd yn wynebu pob math o emosiynau a hynny law yn llaw â pharatoi gwersi ar-lein ac annog eu disgyblion i ymgysylltu o bell.

Whatsapp penaethiaid y dalgylch oedd yr edefyn cefnogol i gael rhannu baich, cynghori a chynnig cefnogaeth emosiynol - agwedd amhrisiadwy mewn cyfnod mor rhyfedd o ddieithr. Trafodwyd llu o asesiadau risg, ystyriwyd sut i gefnogi plant bregus yn y modd mwyaf effeithiol, pa blatfform oedd y gorau i gyflwyno gwaith i blant, sut oedd cefnogi disgyblion heb ddyfeisiadau clyfar a chyswllt y we mewn ardaloedd gwledig a chant a mil o gwestiynau eraill.

I berson sydd â'i chwpan fel arfer yn hanner gwag, 10 wythnos i fewn i'r cloi gofalus a phwyllog yma rhaid i mi gyfaddef mai hanner llawn yw'r gwpan bellach. Mae hynny'n bennaf oherwydd bod gen i gymaint i fod yn ddiolchgar amdano, teulu a ffrindiau cefnogol, staff sydd wedi mynd y filltir ychwanegol, rhwydwaith o gydweithwyr allweddol sydd wedi cydweithio a rhannu baich ar hyd y cyfnod heriol hwn, rhieni sydd wedi codi ffôn a rhannu eu pryderon ac wedi cydweithio gyda'r staff i ddatrys problemau posib ac Awdurdod Addysg sydd wedi cynnig arweiniad a gweledigaeth drwy'r cyfan.

DIOLCH i bob un ohonoch am fod yn gryf a chadarnhaol. Ac wrth gwrs diolch i bob un o swyddogion UCAC am eu harweiniad cadarn ac am sicrhau llais y proffesiwn mewn trafodaethau allweddol.

Megis cychwyn ydi hyn mae'n debyg a llawer her i'w wynebu eto ond wrth gwrs "Daw eto haul ar fryn."

# ANGiaid, Ymsefydlu a Covid-19

Un o sgil-effeithiau niferus yr argyfwng coronafeirws yw ei bod hi wedi bod yn anodd a chymhleth iawn i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGiaid) gwblhau eu Cyfnod Ymsefydlu statudol – gan fod ysgolion, yn eu ffurf arferol, wedi bod ar gau.

Bu i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau ar gyfer ANGiaid a'r Cyfnod Ymsefydlu:
**Coronafeirws a sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru: Canllawiau dros dro**

Ond gan fod yr addasiadau wedi'u gwneud *oddi fewn* i'r rheoliadau presennol, nid ydynt yn bellgyrhaeddol.

Mae UCAC yn teimlo'n gryf nad yw'r gofynion newydd hyn yn deg nac yn rhesymol dan yr amgylchiadau, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi'n pryderon.

Mae'n amlwg erbyn hyn bod angen rhoi ystyriaeth nid yn unig i ofynion carfan 2019-20, ond i garfan 2020-21 yn ogystal.

Yn y cyfamser, mae anogaeth i chi gyflwyno'ch Proffil Ymsefydlu erbyn y dyddiad cau - p'un ai yw e'n gyflawn ai peidio.

Ers derbyn ymateb i'r llythyr, rydym wedi parhau mewn trafodaethau, ac rydym yn ymwybodol bod newidiadau pellach positif ar eu ffordd.

Byddwn yn parhau i'ch diweddaru chi pan fydd unrhyw ddatblygiadau.



# Addysg Bellach

Mae Colegau Addysg Bellach, fel sefydliadau addysg eraill, wedi gorfod cau eu drysau dros y misoedd diwethaf, gyda'r holl bryder a chymhlethdod sy'n dod ynghyd â hynny.

Mae UCAC wedi cyfarfod gyda chyd-undebau, ColegauCymru, CBAC a Chymwysterau Cymru yn ogystal â gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed ac i drafod y ffordd ymlaen.

Ail-agorodd drysau'r colegau ar gyfer rhai staff a myfyrwyr ar 15 Mehefin.

Dyma ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch ailddechrau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith wyneb-yn-wyneb:
https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailddechrau-addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-wyneb-yn-wyneb-coronafeirws

Yn ogystal, mae'r undebau addysg bellach ar-y-cyd wedi cyhoeddi rhestr wirio sy'n anelu at sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i roi hyder i bawb sy'n dychwelyd i'r gweithle:

Rydym yn parhau i gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ac yn eich annog i gysylltu os ydych am drafod unrhyw elfen o'r dychwelyd i'r gwaith.

Yn ogystal â materion yn deillio o Covid-19 byddwn yn galw am godiad cyflog sylweddol i'r sector ynghyd â thrafod y ffordd ymlaen gyda'r gwaith ymchwil cychwynnol ar ymddygiad myfyrwyr.

# Addysg Uwch

Mae Addysg Uwch yn wynebu ei heriau niferus ei hun yn sgil yr argyfwng coronafeirws.

Yn ychwanegol i'r heriau sy'n wynebu pob sefydliad addysg ar hyn o bryd, mae gan y sector gymhlethdodau sy'n ymwneud â llety myfyrwyr, ac yn bennaf oll, recriwtio myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.




Ar i lawr yn ddifrifol y bydd myfyrwyr tramor, ac yn enwedig y rheiny o China, a'r gystadleuaeth am fyfyrwyr o'r Deyrnas Gyfunol gymaint yn uwch.

At hynny, mae Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi, ddechrau Mehefin, y bydd cap ar niferoedd y myfyrwyr o Loegr y bydd hawl gan brifysgolion o Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i'w recriwtio. Hynny yw, dim mwy na 6.5% yn ychwanegol at y niferoedd presennol. Fel arall, caiff sefydliadau eu cosbi o ran lefelau'r ffioedd y bydd hawl ganddynt i'w codi ar fyfyrwyr o Loegr - a hyn mewn maes ble mae'r pwerau wedi'u datganoli: https://www.gov.uk/government/publications/student-number-controls

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn chwyrn i'r cyhoeddiad. Cawn weld beth yn union yw'r opsiynau mae'r Gweinidog yn barod i'w hystyried...

Ar 4 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r datganiad polisi canlynol ar gyfer y sector mewn ymateb i'r argyfwng: https://llyw.cymru/datganiad-polisi-addysg-uwch-coronafeirws-html

Ar 11 Mehefin, cyhoeddodd y Llywodraeth y canllawiau canlynol ar drefniadau diogelu staff, myfyrwyr a chymunedau: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-addysg-uwch-diogelu-cymru-covid-19


Mae UCAC wedi darparu Rhestr Wirio ar gyfer staff i geisio sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i ddiogelu pawb sy'n dychwelyd i'r gweithle.

## Cyfle arbennig i aelodau UCAC

Cyfle i dderbyn print Elin Vaughan Crowley.
Ebostiwch ni ar ucac@ucac.cymru gyda'ch enw a byddwn yn tynnu 10 enw allan o het i dderbyn y print yn y post.
Dyddiad cau: 17 o Orffennaf 2020

Mae'n gyfnod eithriadol o anodd a hoffai UCAC ddiolch o galon i'n holl aelodau sy'n gwneud gwaith rhagorol dan amgylchiadau heriol.




@athrawoncymru
@athrawoncymru
@undebcenedlaetholathrawoncymru

#hapus
#MewnUndebMaeNerth